**CYNGOR BRO MACHNO**

**Cofnodion** cyfarfod 13 Gorffennaf, 2017 a gynhaliwyd yn Festri Salem am 7.30.

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Eifion Davies, Sian Anwyl Jones, Dewi Jones, Geraint Thomas, Lyn Mcfadden, Claire Roberts, Colin Jones, Eryl Owain a'r Cynghorydd Wyn Ellis Jones.

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

Cyn cyfarfod y cyngor, cafodd yr aelodau weld y toiledau ar eu newydd wedd a chafwyd eglurhad gan Steven Teale o Gyngor Sir Conwy ar sut y bydd y toiledau'n gweithredu. Eglurodd na fyddai'r toiledau'n dod i feddiant y Cyngor Bro hyd nes y byddai'r dogfennau cyfreithiol wedi eu trosglwyddo.

**Elusen Unedig Penmachno** – estynnodd y Cadeirydd groeso i Gareth Griffiths, ysgrifennydd Elusen Unedig Plwyf Penmachno. Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol yr Elusen ganddo i sylw'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ar weithgareddau'r elusen, faint oedd yn gwybod am yr elusen a sut mae gwneud cais am gymorth. Penderfynwyd awgrymu i Ymddiriedolwyr yr elusen y byddai'n fuddiol gwario'r incwm blynyddol. Diolchwyd i Gareth Griffiths am fynychu'r cyfarfod.

**Croeso** – croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**Derbyniwyd cofnodion** cyfarfod o'r Cyngor ar 11 Mai, 2017 fel rhai cywir.

**Ethol Swyddogion** – Cynnig gan Dewi Jones wedi ei eilio gan Geraint Thomas fod y cadeirydd a'r is-gadeirydd (Dafydd Gwyndaf ac Eryl Owain) yn aros yn eu swyddi. Cytunwyd yn unfrydol.

Penderfynwyd gohirio ethol cynrychiolydd ar Elusen Unedig Penmachno tan y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd ethol Eifion Davies yn gynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Penmachno (Colin Jones yn cynnig, Dewi Jones yn eilio).

**Toiledau** – trafodwyd amryw faterion yn ymwneud â chynnal a chadw'r toiledau wedi iddynt gael eu trosglwyddo. Penderfynwyd peidio a hysbysebu ar hyn o bryd am rhywun i lanhau nes bydd yn gliriach pryd fydd y dyddiad trosglwyddo. Penderfynwyd agor cyfrif banc ar wahân ar gyfer y toiledau. Cytunodd Claire Roberts i wneud y trefniadau a bydd hi hefyd yn gwagio'r arian mynediad yn rheolaidd er mwyn ei fancio.

**Materion Ffyrdd** – gofynnwyd i'r clerc drefnu cyfarfod efo Kevin Jones o Gyngor Sir Conwy i drafod nifer o faterion sydd angen sylw, gan gynnwys cyflwr ffordd Hafod-y-rhedwydd, angen torri gwair ar y ffordd gefn gyferbyn â Groesffordd, coediach yn tyfu allan o wal Pont Llan ym Mhenmachno a'r ffosydd dyfnion ar ffordd Tŷ Mawr.

**Materion traffig** – cafwyd eglurhad gan y Cynghorydd Wyn Jones o'r broses o gyflwyno mesurau rheoli cyflymdra. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i gael gwybod beth a wnaed eisoes a phryd y gellir disgwyl gweld y y cyfyngiadau'n cael eu cyflwyno.

**Cyfoeth Naturiol Cymru** – cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd o gyfarfod efo Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r cynlluniau i dorri coed yn y dyfodol a sut byddai'r coed yn cael cario allan. Cadarnhawyd safbwynt y Cyngor nad yw;r drefn bresennol o loriau mawr yn dod allan i'r B4406 ger y Ffatri Wlân yn dderbyniol.

**Mast Ffôn** – adroddwyd bod bwriad i godi mast ffôn symudol ar safle Dŵr Cymru ger Bron-y-foel wedi ei dynnu'n ôl oherwydd fod Dŵr Cymru wedi tynnu eu caniatâd yn ôl yn dilyn gwrthwynebiadau. Yn dilyn ymholiadau gan y clerc, cafwyd ar ddeall nad oes bwriad gan y

cwmni i chwilio am safleoedd eraill. Penderfynwyd bod angen pwyso am well derbyniad ffôn symudol ar gyfer Penmachno a Chwm Penmachno a chymaint o'r plwy' â phosib.

**Un Llais Cymru** – cytunodd Claire Roberts a Sian Anwyl Jones i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol Un Llais Cymru.

**Cwt Hers** – derbyniwyd llythyr gan berchennog tŷ gerllaw ynglŷn â chyflwr y Cwt Hers. Gofynnwyd i Geraint Thomas wneud archwiliad ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

**Cae Chwarae** – cafwyd cais am drac rhedeg yn y cae chwarae a phenderfynwyd gofyn i'r clerc wneud ymholiadau.

**Sgipiau Cymunedol** – penderfynwyd llogi sgipiau ar gyfer Penmachno a Cwm ar gyfer yr hydref.

**Materion Ariannol** – cadarhawyd bod digon o gyllid wrth gefn ar gyfer gwariant y cyngor ond ei bod yn anodd cynllunio gwariant yn fanwl cyn cael gwybod mwy am oblygiadau ariannol cynnal a chdw'r toiledau.